# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 29 Ebrill 2014** |
| Amser: | **08.30 - 08.40** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

Aelodau'r Pwyllgor:

**Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**
**Paul Davies**
**Lesley Griffiths**
**Elin Jones**
**Aled Roberts**

Staff y Pwyllgor:

**Aled Elwyn Jones (Clerc)**

Eraill yn bresennol:

**David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**
**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**
**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**
**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd**
**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am newidiadau i fusnes y Llywodraeth.

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 21 Mai 2014**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Lefelau Cyfranogiad mewn Chwaraeon (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

4(i) Bil Addysg Uwch (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor i gyfeirio Bil Addysg Uwch (Cymru) at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i'w ystyried yng Nghyfnod 1.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddent yn gohirio'r penderfyniad ar amserlen y Bil am bythefnos, i roi amser ar gyfer ymgynghori â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

4(ii) Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Y Bil Dadreoleiddio

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Dadreoleiddio.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm atodol at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 19 Mehefin 2014, er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mehefin 2014.

## UNRHYW FUSNES ARALL

### Bil Cymru: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wybod i'r Pwyllgor Busnes bod y Llywodraeth yn cadw at yr amserlen a nodwyd cyn toriad y Pasg, a'i bod yn bwriadu gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyn diwedd yr wythnos hon, gyda phapur sydd i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Busnes yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.

### Ymweliadau gan bwyllgorau

Atgoffodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes y dylai unrhyw Aelod sy'n cymryd rhan mewn ymweliad pwyllgor sy'n effeithio ar eu presenoldeb yn y Cyfarfod Llawn dynnu eu henwau o'r balot, neu, beidio â chyflwyno cwestiwn ar gyfer y diwrnod hwnnw o leiaf. Mae tynnu cwestiynau'n ôl ar ôl i'r Swyddfa Gyflwyno gynnal y balot a'r hapddewis yn atal Aelodau eraill rhag cael y cyfle i ofyn cwestiynau i'r Gweinidogion.